**Adroddiad ar y cyd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr**

# Adolygiad o Effeithiolrwydd y Llywodraethu a'r Rheoli Ariannol yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)

**9 Chwefror 2012**

## Cyflwyniad

1. Ar 19 Rhagfyr 2011, cysylltodd staff yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDID) â Gwasanaethau Archwilio Mewnol (IAS) Llywodraeth Cymru i'w hysbysu am nifer o honiadau a dderbyniwyd ynghylch Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA). Cyfarwyddwr Cyllid AWEMA oedd wedi anfon yr honiadau gwreiddiol at EDID. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ohebiaeth a dogfennau pellach ynghylch y materion hyn gan Gadeirydd newydd AWEMA, ac rydym yn cael ar ddeall iddynt gael eu hanfon i'r Comisiwn Elusennau, Uned Troseddau Economaidd Heddlu De Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Gronfa Loteri Fawr.

2. Mae'r tabl isod yn dangos y cyllid a ddyfarnwyd i AWEMA gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a'r Gronfa Loteri Fawr:

| Ffynhonnell y Cyllid | Diben y Cyllid | Cyfnod y Cyllid | £k |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Cyllid Craidd | Blynyddol | 105 |
| WEFO | "Young BME Aiming High"<br>"BME Employment for All"<br>"Minorities are Wales Resources" | 2010/13<br>2008/12<br>2010/14 | 1,500<br>2,000<br>1,500 |
| Cronfa Loteri Fawr | "Advocacy for Elders"<br>"Consulting Young People in Transition" | 2011/14<br>2011/12 | 518<br>5 |

3. Ar 6 Ionawr, ac yn sgil yr honiadau, hysbyswyd AWEMA gan swyddogion Llywodraeth Cymru a WEFO y byddai'r cyllid grant yn cael ei atal tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal. Cytunwyd y byddai'r ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd wedi atal y cyllid grant i AWEMA.

4. Cwmni cyfyngedig drwy warant yw AWEMA yn ogystal ag elusen gofrestredig. Prif amcan AWEMA yw hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth er budd y cyhoedd. Caiff ei lywodraethu gan Gyngor Aelodau sy'n dod o bum rhanbarth etholiadol Cymru. Caiff aelodau ychwanegol o'r Deyrnas Unedig eu cyfethol yn ôl argymhellion Aelodau eraill y Cyngor a Phrif Weithredwr AWEMA. Yr enw ar Ymddiriedolwyr AWEMA yw Bwrdd Rheoli AWEMA (ABOMA) sy'n cael ei ethol o blith Aelodau'r Cyngor. Mae Dogfennau Llywodraethu AWEMA, ei Femorandwm a'i Erthyglau, yn nodi bod y swyddog gweithredol â'r cyflog uchaf yn AWEMA, sef y Prif Weithredwr yn yr achos hwn, hefyd yn Ymddiriedolwr. Ceir manylion pellach am yr arfer anghyffredin hwn ym mharagraff 34.

5. Roedd yr honiadau a dderbyniwyd gan amryw gyrff yn bellgyrhaeddol ac mewn rhai achosion yn fanwl iawn. Roeddent yn ymwneud â llywodraethu, rheoli ariannol, gwrthdaro buddiannau, gwerth am arian a

gweithgareddau troseddol posibl. Roedd hefyd yn cynnwys honiadau ynghylch materion staff ac adnoddau dynol. Nid yw'r materion staff, adnoddau dynol a throseddol yn rhan o'n hymchwiliad gan eu bod yn faterion nad oes gennym awdurdod i ymchwilio yn eu cylch.

6. Ar 16 Rhagfyr 2011, cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol yn AWEMA ac etholwyd Cadeirydd newydd. Un o gamau cyntaf y Cadeirydd newydd oedd ymgynnull Panel Disgyblu i ystyried nifer o honiadau yn erbyn y Prif Weithredwr. Cyfarfu'r Panel Disgyblu ar 19 Rhagfyr 2011, ac roedd yn cynnwys y Cadeirydd newydd a dau Ymddiriedolwr arall. Daeth y Panel Disgyblu i'r casgliad bod rhesymau dros bryderu am ymddygiad y Prif Weithredwr a gosododd dri sancsiwn disgyblu, sef:
    - rhybudd ysgrifenedig ynghylch "fflôts" arian parod y tybiwyd eu bod yn fenthyciadau, gan nodi bod y Panel Disgyblu'n ystyried amgylchiadau'r mater hwn yn gamymddwyn difrifol;
    - rhybuddion llafar ynghylch dyfarnu cyflog i'w ferch;
    - rhybudd llafar am yr arferion cyfrifyddu ynghylch taliadau yswiriant bywyd.

7. Hefyd, rhoddodd y Cadeirydd newydd "air o gyngor" i'r Prif Weithredwr ar ddulliau ac arferion rheoli.

8. Yn ogystal, ar 12 Ionawr 2012 cafodd y Cyfarwyddwr Cyllid ei ddiarddel gan Gadeirydd AWEMA oherwydd pryderon am ei ymddygiad a'i berfformiad honedig yn y gwaith yn yr wythnosau blaenorol. Mae'r broses ddisgyblu yn mynd rhagddi ynghylch y mater hwn.

9. Gwybodaeth gefndirol bellach, sy'n bwysig er mwyn dangos cyd-destun y sefyllfa bresennol yn AWEMA, yw bod saith o Ymddiriedolwyr AWEMA wedi ymddiswyddo ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2011.

10. Mae'r ymchwiliad hwn wedi'i gynnal ar y cyd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr, ac mae'r ddau yn gytûn ynghylch cynnwys yr adroddiad hwn.

**Dull Gweithredu a Chwmpas**

11. Elusen annibynnol yw AWEMA, nid Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru nac un o asiantaethau Llywodraeth Cymru. Caiff AWEMA ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr, ac mae'n atebol i'r cyrff hyn ddim ond i'r graddau ei fod wedi ymrwymo i delerau ac amodau'r cytundebau cyllido hynny. Mae pwerau Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig i'r pwerau hynny y rhoddwyd cyllid grant i AWEMA, ac y cytunwyd arnynt, oddi tanynt (a, thrwy hynny, a gydymffurfiwyd â thelerau ac amodau'r grant). Mae diben yr ymchwiliad felly wedi'i gyfyngu i ddod i gasgliad a rhoi cyngor o ran digonoldeb ac effeithiolrwydd y rheolaethau ariannol a'r prosesau llywodraethu sydd ar waith yn AWEMA o ran rheoli'r cyllid hwnnw. Cytunodd Bwrdd

Ymddiriedolwyr AWEMA ar Gylch Gorchwyl yn amlinellu cwmpas llawn ein hadolygiad fforensig, a hynny ar 10 Ionawr 2012. Mae copi o Gwmpas yr Adolygiad i'w weld yn **Atodiad A.**

12. Rhoddwyd cryn sylw yn y wasg a'r cyfryngau i ymchwiliad Dr Paul Dunn a gomisiynwyd gan Ymddiriedolwyr AWEMA. Mae adroddiad Dr Dunn, dyddiedig 12 Rhagfyr 2011, yn amlinellu canfyddiadau ymchwiliad a gynhaliodd i honiadau yn erbyn Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau AWEMA. Nid ydym wedi ymchwilio o'r newydd i'r materion a drafodwyd gan Dr Dunn, nac wedi'i gyfweld fel rhan o'n hymchwiliad. Rydym wedi gweld adroddiad Dr Dunn a chofnodion y cyfarfodydd a gafodd gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Prif Weithredwr fel rhan o'i ymchwiliad.

13. Mae'r canlynol wedi amharu ar ein gallu i gwblhau'n hymchwiliad a chyflawni'r Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno:
    - Diffyg cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer 2010/11;
    - Diffyg unrhyw gyfrifon rheoli;
    - Diffyg gwybodaeth ariannol allweddol arall, fel cysoniadau banc a balansau credydwyr;
    - Methiant gan y sefydliad i roi gwybodaeth i ni o'i becyn meddalwedd cyfrifyddu ariannol.

14. Yn ystod eu cyfnod ar y safle, bu tîm yr ymchwiliad yn cyfweld personél allweddol (Cadeirydd AWEMA, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau), yn dysgu am y prosesau ariannol a llywodraethu oedd ar waith yn AWEMA, ac yn profi a dilyn hynt cynnwys dogfennau allweddol. Ar ôl ymweld â safle AWEMA, cafodd y Cyfarwyddwr Cyllid oedd wedi'i ddiarddel ei gyfweld fel rhan o'r ymchwiliad. Mae'r gwaith a wnaed yn ddigonol i'n galluogi i ddod i gasgliadau am y prosesau llywodraethu a rheolaeth ariannol sydd ar waith yn AWEMA.

15. Rydym wedi cyfathrebu'n rheolaidd â Heddlu De Cymru a'r Comisiwn Elusennau er mwyn sicrhau nad ydym yn tarfu ar faterion sy'n gyfrifoldeb i'r Heddlu neu'r Comisiwn Elusennau fel y corff sy'n rheoleiddio elusennau. Byddwn yn rhoi copi o'n hadroddiad i'r ddau gorff hyn ac i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

16. Roeddem yn anad dim am osgoi ymchwilio i'r honiadau am y Prif Weithredwr, a allai fod yn gysylltiedig â gweithgareddau troseddol. Gallai ymchwilio i'r materion hyn fod wedi amharu ar unrhyw ymchwiliad troseddol posibl yn y dyfodol gan yr Heddlu. Rydym hefyd yn ymwybodol bod pryderon wedi eu mynegi ynghylch diogelwch dogfennau AWEMA ac a oeddent yn ddiogel cyn ein hymweliad. Pan gaiff yr adroddiad hwn ei roi i Heddlu De Cymru, mae'n bosibl y byddant am ymchwilio ymhellach i'r mater hwn.

**Y Casgliad Cyffredinol**

17. Mae'r ymchwiliad fforensig hwn wedi nodi methiannau sylweddol a sylfaenol yn fframwaith rheoli a llywodraethu AWEMA. Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn **ni allwn roi unrhyw sicrwydd** bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu a gwneud defnydd priodol o'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru, WEFO a'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i roi i AWEMA. Roedd y methiannau hyn i'w gweld ym mhob rhan o'r sefydliad, a hynny'n awgrymu mai prin yw'r sylw y mae'r Ymddiriedolwyr, gan gynnwys y Prif Weithredwr, wedi'i roi i safonau cydnabyddedig bywyd cyhoeddus a'u hystod lawn o gyfrifoldebau statudol o dan ddeddfwriaeth elusennau a chwmnïau.

18. I grynhoi, nodwyd gwendidau sylfaenol yn y meysydd canlynol:

- Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag ABOMA a rheoli;
- Rheolaethau a phrosesau ariannol;
- Diffyg polisïau a gweithdrefnau allweddol;
- Strwythur sefydliadol nad yw'n ddigonol i gefnogi gweithrediadau AWEMA.

19. Mae'r ffeithiau canlynol yn dangos y diffyg rheoli ariannol yn AWEMA:

- Nid oes cyfrifon statudol wedi'u cynhyrchu ar gyfer y flwyddyn hyd at 31/03/2011; nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi cyflawni'u rhwymedigaethau o ran eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau o fewn y terfyn amser.
- Ni fu modd i ni gael copïau o unrhyw gyfrifon rheoli wedi'u llunio gan AWEMA. Fe'n hysbyswyd nad ydynt wedi cael eu llunio ers tro ac nid fu modd canfod pryd oedd y tro diwethaf iddynt gael eu llunio.
- Mae diffyg goruchwylio llwyr ar y prosesau a'r rheolaethau ariannol yn AWEMA gan y Prif Weithredwr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwr.
- Ychydig iawn o wybodaeth ariannol y mae ABOMA yn ei derbyn ac nid yw'n gweld y pwyntiau a godir mewn llythyrau rheoli gan archwilwyr allanol AWEMA, gan eu bod yn ymdrin â'r Cyfarwyddwr Cyllid yn unig heb ymwneud yn uniongyrchol â'r Ymddiriedolwyr.
- Nid oes cysoniadau allweddol wedi'u cyflawni, fel cysoniadau cyfrifon banc.
- Mae diffyg polisïau a gweithdrefnau allweddol yn AWEMA. Er enghraifft, nid oes polisi treuliau ar gyfer staff, ac nid oes cofrestr gwrthdaro buddiannau na chofrestr rhoddion/lletygarwch a roddwyd neu a dderbyniwyd.
- Nid oedd rhestr o'r credydwyr ar gael. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol a dylai fod ar gael i alluogi'r rheolwyr a'r Ymddiriedolwyr i fod yn sicr bod y sefydliad yn ddiddyled ac i gadarnhau ei hyfywedd yn gyson.

20. Mae'r uchod yn dangos nad yw ABOMA wedi cyflawni'i ddyletswyddau yn effeithiol nac wedi cymryd cyfrifoldeb am gyfarwyddo materion y

sefydliad a sicrhau ei fod yn ddiddyled, yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r anghenion y'i sefydlwyd ar eu cyfer. Yn ogystal, canfuwyd nad oedd ABOMA wedi cael gwybodaeth ddigonol i gynnig yr arweiniad priodol a chyflawni'i ddyletswyddau stiwardio, yn enwedig ar faterion ariannol. Rydym o'r farn bod hyn wedi cyfrannu'n bendant at fethiant y fframwaith rheoli, ac mae diffyg rheolaethau ar brosesau ariannol allweddol fel y gyflogres a chysoniadau cyfrifon wedi gwaethygu'r sefyllfa. Rydym yn nodi â phryder nad yw'r dyletswyddau ar gyfer y prosesau ariannol allweddol wedi cael eu gwahanu'n briodol ac nad yw'r rheolwyr wedi'u hadolygu.

21. Mae diffyg gwybodaeth ariannol sylfaenol wedi'n hatal rhag gallu asesu na chadarnhau a yw'r cyllid ariannol y mae AWEMA wedi'i dderbyn wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer. Mae'r diffyg gwybodaeth hwn hefyd yn golygu nad yw'r Ymddiriedolwyr wedi gallu cyflawni'u dyletswyddau o ran sicrhau bod arian AWEMA wedi cael ei ddefnyddio'n briodol, yn ddoeth, yn gyfreithlon ac yn unol ag amcanion elusennol AWEMA.

22. Gan ystyried faint o arian cyhoeddus a roddwyd i AWEMA, rydym wedi mabwysiadu Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yr Arglwydd Nolan fel ein meincnod ar gyfer ystyried safonau llywodraethu yn y sefydliad ac ar gyfer yr ymddygiadau disgwyliedig sy'n sail i waith rheoli a rheoli ariannol. Sefydlwyd yr egwyddorion hyn yn wreiddiol ar gyfer unigolion sydd mewn swyddi cyhoeddus ac yn gweithio i'r llywodraeth. Fodd bynnag, ystyrir eu bod yn berthnasol i ragor o feysydd na hynny, gan gynnwys Ymddiriedolwyr a rheolwyr sefydliadau gwirfoddol ac elusennol. I grynhoi, yr egwyddorion yw anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

23. Mae ein gwaith yn AWEMA yn dangos nad oedd yr Ymddiriedolwyr a'r rheolwyr yn ystyried yr egwyddorion hyn, felly dros gyfnod nid ydynt wedi cyflawni'u swyddogaethau perthnasol yn effeithiol yn AWEMA.

24. Mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys ein canfyddiadau manwl ynghylch materion llywodraethu a rheoli ariannol.

## Canfyddiadau Manwl

### *Llywodraethu*

<u>Adroddiadau Ariannol i ABOMA</u>

25. Un o'r pryderon mwyaf oedd mai cyfyngedig yw'r wybodaeth ariannol reolaidd y mae ABOMA yn ei derbyn. Rhoddir rhagolygon llif arian yng Nghyfarfodydd y Bwrdd ond ni roddir unrhyw gyfrifon rheoli nac unrhyw wybodaeth ariannol arall. Felly ni chaiff ABOMA ei hysbysu am sefyllfa ariannol y sefydliad ac nid yw ychwaith yn cael unrhyw sicrwydd bod AWEMA yn ddiddyled. Ar ben hyn, ni ymddengys bod ABOMA erioed wedi herio'r ffaith nad yw'n derbyn digon o wybodaeth ariannol.

Llythyrau Rheoli yr Archwilwyr Allanol

26. Mae'r materion a godwyd yn Llythyrau Rheoli yr Archwilwyr Allanol, nad oedd ABOMA wedi'u gweld, yn gwaethygu ymhellach y gwendid ynghylch ansolfedd. Ar ôl adolygu cofnodion ABOMA, gwelwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth bod yr Ymddiriedolwyr wedi cael gweld y Llythyrau Rheoli nac wedi eu hystyried. Dylai fod perthynas ffurfiol rhwng yr Archwilwyr Allanol ac ABOMA, sy'n gyfrifol am lywodraethu'r sefydliad. Datgelodd ein hymchwiliad fod yr Archwilwyr yn delio bron yn llwyr â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Gwelwyd o drafodaeth gyda'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd nad oedd pwyntiau'r Llythyrau Rheoli erioed wedi'u trafod gydag ABOMA ac nid oedd unrhyw dystiolaeth yn awgrymu bod y gwendidau a nodwyd yn y Llythyrau Rheoli wedi'u hunioni. Ar sail trafodaeth gyda'r Archwilwyr, cafwyd ar ddeall fod pwyntiau'r Llythyrau Rheoli wedi cael eu cyfleu i'r Cyfarwyddwr Cyllid.

27. Ar ôl bwrw golwg dros Lythyrau Rheoli 2007/08 a 2009/10 fel rhan o'n hymchwiliad, (dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd llythyr wedi'i anfon yn 2008/09) roedd yn achos pryder nodi bod yr Archwilwyr Allanol wedi nodi yn Llythyr Rheoli 2009/10 nad oedd cyfrifon AWEMA fel y'u cedwid ar y pecyn meddalwedd ariannol yn cynnwys mantolenni'r sefydliad. Yn lle hynny, roedd y mantolenni hyn yn cael eu hychwanegu ar ddiwedd bob blwyddyn wrth gynnal archwiliad o'r datganiadau ariannol. Mae hyn yn golygu bod gwir sefyllfa ariannol AWEMA yn anhysbys yn ystod y flwyddyn, yn enwedig o ran asedau a dyledion. Mae yna risg hefyd y byddai'n anoddach atal a/neu sylwi ar unrhyw addasiadau gan y rheolwyr i'r trafodion a'r balansau yn y datganiadau ariannol diwedd blwyddyn. Ar ben hyn, gallai ABOMA a/neu'r rheolwyr fod wedi gwneud penderfyniadau ariannol ar sail gwybodaeth ariannol anghyflawn. Mae diffyg cofnodion ariannol cyflawn hefyd yn golygu na fyddai modd i ABOMA gyflawni'i ddyletswyddau o ran sicrhau bod AWEMA yn parhau i fod yn hyfyw.

28. Mae hefyd yn peri pryder i nodi bod y Llythyr Rheoli ar gyfrifon 2009/10 yn canfod gwendidau y tynnwyd sylw atynt hefyd yn Llythyr Rheoli 2007/08. Mae hyn yn awgrymu nad oedd gwendidau rheoli yn cael eu hunioni ac nad yw ABOMA yn cyflawni'i gyfrifoldebau o ran sicrhau bod argymhellion yr Archwilwyr yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith yn briodol.

29. Methodd ABOMA â chael adroddiadau ariannol priodol gan y Cyfarwyddwr Cyllid nac ychwaith unrhyw sicrwydd yn uniongyrchol gan yr Archwilydd Allanol.

Gwerthusiad o Berfformiad y Prif Weithredwr

30. Yn ystod yr ymchwiliad, fe'n hysbyswyd nad oedd y Prif Weithredwr wedi cael gwerthusiad perfformiad ers 2006. Mae'n bwysig bod

ABOMA yn gwerthuso perfformiad y Prif Weithredwr yn rheolaidd er mwyn:

- Adolygu llwyddiannau a gwendidau'r Prif Weithredwr yn ôl yr amcanion, y cymwyseddau neu'r meincnodau perfformiad y cytunwyd arnynt;
- Adolygu llwyddiannau'r Prif Weithredwr fel esiampl dda o ran arddangos gwerthoedd y sefydliad;
- Hysbysu'r Prif Weithredwr am unrhyw bryderon ynghylch ei berfformiad;
- Gwella perfformiad y sefydliad yn ei gyfanrwydd drwy feithrin diwylliant o werthuso a datblygu.

Cyfarfodydd ABOMA

31. Ar sail adolygu cofnodion ABOMA, gwelwyd nad yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac nad oes rhaglen waith y cytunir arni ar gyfer y Bwrdd. Fe'n hysbyswyd bod cyfarfodydd ABOMA yn cael eu cynnal yn ôl y galw pan fyddai materion yr oedd angen i ABOMA eu hystyried. Dangosodd ein gwaith profi rai enghreifftiau o 11 mis rhwng cyfarfodydd, a gwelwyd mai dim ond un cyfarfod ABOMA a gynhaliwyd yn 2009. Nodwyd hefyd nad oedd cofnodion ar gyfer y cyfarfod ABOMA a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2011.

32. Mae Erthyglau Cymdeithasu AWEMA, Erthygl 8.1, yn nodi y dylid cynnal cyfarfodydd ABOMA o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r patrwm anghyson a amlinellir yn y paragraff uchod yn amlwg yn torri Erthyglau Cymdeithasu AWEMA. Ar ben hyn, er mwyn dilyn arfer gorau dylid cytuno ymlaen llaw ar amserlen cyfarfodydd ABOMA, a datblygu rhaglen waith ar gyfer cyfarfodydd sy'n amlinellu dogfennau allweddol y dylid eu hystyried ar adegau gwahanol o'r flwyddyn, e.e. pryd y dylai ABOMA ystyried y cyfrifon wedi'u harchwilio a phwyntiau'r llythyr rheoli. Ni welwyd bod unrhyw un o'r arferion hyn ar waith yn AWEMA, sy'n cefnogi ymhellach ein casgliad na allwn roi sicrwydd bod ABOMA yn goruchwylio'n ddigonol y gwaith o lywodraethu a rheoli'r sefydliad. Mae perygl bod ymddiriedolwyr nad ydynt yn cwrdd yn ddigon rheolaidd yn torri'u dyletswydd gofal. Ar ben hyn, nid oedd tystiolaeth bod ABOMA wedi diffinio'i ofynion o ran derbyn gwybodaeth sy'n hanfodol i'w alluogi i gyflawni'i ddyletswyddau'n effeithiol.

Proses Benderfynu ABOMA

33. Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion ABOMA hefyd bod ABOMA yn aml yn rhoi cymeradwyaeth ôl-weithredol i benderfyniadau yr oedd y Prif Weithredwr eisoes wedi'u gwneud. Gan nad oedd ABOMA yn cynnal cyfarfodydd yn aml, roedd hynny'n anochel. Wrth gyflwyno amserlen ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd ABOMA, dylai hynny olygu y gall gynllunio ei fusnes yn well, fel bod llai o angen cymeradwyo penderfyniadau'r Prif Weithredwr yn ôl-weithredol neu ganiatáu i'r Prif Weithredwr weithredu ar ei ben ei hun.

## Aelodaeth ABOMA

34. Un o'r gofynion ar gyfer Ymddiriedolwyr yw eu bod yn gweithredu'n rhesymol ac yn ddarbodus er budd yr elusen. Dylai'r Ymddiriedolwyr hefyd fod yn annibynnol ac ni ddylent fod ar eu hennill yn ariannol o ganlyniad i'w safle. Dangosodd adolygiad o aelodaeth ABOMA bod y Prif Weithredwr hefyd yn Ymddiriedolwr. Mae awdurdod AWEMA i gynnwys y Prif Weithredwr fel Ymddiriedolwr yn deillio o Erthygl 6.2.3 yn ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu. Mae hyn yn hynod anarferol ac wedi arwain at wrthdaro buddiannau, yn enwedig gan fod y Prif Weithredwr yn weithredol gyfrifol am arwain y sefydliad, a hynny'n gwrthdaro â'i swyddogaeth fel Ymddiriedolwr, sef bod yn annibynnol o ran goruchwylio a chraffu. Mae'r gwrthdaro hwn wedi cynyddu dros amser wrth i aelodau o deulu'r Prif Weithredwr gael eu cyflogi gan AWEMA, neu wirfoddoli iddo.

35. Aelodau o'r Cyngor yw ABOMA a chânt eu henwebu a'u cymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Dangosodd y gwaith profi nad oes yna derfyn amser ar gyfer cyfnod penodiad yr Aelodau. Rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd yn aml denu unigolion i weithredu fel Ymddiriedolwyr, ond er mwyn dilyn arfer da dylai aelodaeth ABOMA gylchdroi er mwyn sicrhau bod aelodaeth ABOMA yn cael ei hadnewyddu'n rheolaidd a bod yr aelodau'n meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn ddigonol.

## Proses Gynefino ABOMA

36. Dangosodd adolygiad o broses gynefino yr Ymddiriedolwyr eu bod yn derbyn pecyn cynefino wrth gael eu penodi. Nid oes rhaglen hyfforddi ffurfiol wedi'i chyflwyno ar gyfer Aelodau newydd, fodd bynnag, er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'u swyddogaethau llywodraethu a'u cyfrifoldebau cyfreithiol, a bod ganddynt y sgiliau i gyflawni eu dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr yn effeithiol.

## Cofrestr Rhoddion/ Lletygarwch a Gwrthdaro Buddiannau

37. Er bod yr Aelodau'n datgan unrhyw wrthdaro buddiannau yng nghyfarfodydd ABOMA, dangosodd ein hymchwiliad nad oes yna gofrestr gwrthdaro buddiannau na chofrestr rhoddion a lletygarwch (ar gyfer rhoddion/lletygarwch a roddwyd neu a dderbyniwyd) ar gyfer staff AWEMA.

## Buddion Posibl

38. Ar 17 Ionawr 2012, ddiwrnod cyn i'n gwaith maes ddechrau, hysbysodd Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr ni bod y Prif Weithredwr wedi tynnu ei sylw at nifer o enghreifftiau o wariant o gronfeydd AWEMA y mae'n eu disgrifio yn ei e-bost dyddiedig 15 Ionawr fel buddion posibl y gallai ef fod wedi'u cael yn y gorffennol. Caiff y rhain eu crynhoi isod:

- Aelodaeth o Gampfa – Rhwng mis Ionawr 2009 a mis Ionawr 2011 ar gost o £2,120 i gyd, cynigwyd aelodaeth o gampfa am ddwy flynedd i holl staff AWEMA (pedwar aelod o staff ar y pryd; manteisiodd tri aelod o staff ar y cynnig).
- Tocynnau Rygbi a Chriced – prynwyd tocynnau ar gyfer gemau rygbi rhyngwladol (tri achlysur) a gemau criced (un achlysur) a'u cynnig i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr. Cyfanswm y gost oedd £800.
- Ar un achlysur, cyhoeddwyd hysbysiad cosb mewn perthynas â throsedd parcio y Prif Weithredwr. Talodd AWEMA y gost (£110).

39. Rydym yn cael ar ddeall na hysbyswyd Cyllid a Thollau ei Mawrhydi am unrhyw un o'r buddion hyn. Mae hyn yn arwydd o sefydliad a Phrif Weithredwr sy'n gweithredu heb roi ystyriaeth ddigonol i sicrhau bod cronfeydd AWEMA wedi'u defnyddio'n ddarbodus ac yn unol ag amcanion elusennol AWEMA. Nid yw AWEMA yn gallu dangos nad yw'r gwariant uchod wedi'i dalu o'r cyllid cyhoeddus a roddwyd iddo.

***Rheolaeth Ariannol***

<u>Cyfrifon Statudol wedi'u Harchwilio</u>

40. Un o'r methiannau sylfaenol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad hwn yw nad oes yna set o gyfrifon statudol wedi'u harchwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/2011. Ym mis Chwefror 2012 roedd y cyfrifon hynny yn dal heb eu cynhyrchu ac yn ein trafodaethau ag Archwilwyr Allanol AWEMA yn ystod ein hymweliad â'r safle fe ddatgelwyd eu bod o'r farn mai dim ond oddeutu 10% o'r cyfrifon oedd wedi'u cwblhau. Pan gynhaliwyd ein gwaith maes, nid oeddem yn gallu cael mynediad i system gyllid AWEMA gan nad oedd yr un aelod o staff, ar wahân i'r Cyfarwyddwr Cyllid a oedd wedi'i atal o'i waith, yn gwybod sut i gael mynediad i'r system. Yn dilyn ein hymweliad, rhoddodd Cadeirydd AWEMA a'r Cyfrifydd Dros Dro wybod i ni bod yna ddata ariannol ar y system gyllid, ond eu bod yn anghyflawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2010/11 ac nad oedd yna unrhyw ddata ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12.

41. Mae AWEMA hefyd wedi methu cwrdd â therfyn amser statudol Tŷ'r Cwmnïau ar gyfer cyflwyno ei gyfrifon, sef 30/12/2011, a therfyn amser y Comisiwn Elusennau, sef 31/01/2012. Mae'n bosibl fod AWEMA erbyn hyn yn derbyn cosbau ariannol gan Dŷ'r Cwmnïau am gyflwyno ei gyfrifon yn hwyr. Mae'r sefyllfa hon yn arwydd o ddiffygion difrifol ar ran y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Weithredwr a'r Ymddiriedolwyr ar y cyd.

<u>Swyddogaethau a Chyfrifoldebau</u>

42. Datgelodd trafodaethau gyda Phrif Weithredwr AWEMA ei fod yn ystyried mai cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cyllid oedd sicrhau bod y cofnodion cyfrifo priodol yn cael eu cadw er mwyn sicrhau y gellid

cynhyrchu'r cyfrifon diwedd blwyddyn. Er ein bod yn cydnabod mai cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cyllid oedd cyflawni'r swyddogaeth hon, mae'n destun pryder mawr nad oedd y Prif Weithredwr yn ymwybodol o gwbl o'r diffyg cynnydd o ran cynhyrchu cyfrifon 2010/11.

43. Rhan fechan yr oedd y Prif Weithredwr wedi'i chwarae o ran rheoli prosesau ariannol AWEMA, a dywedodd wrthym ei fod yn dibynnu ar y Cyfarwyddwr Cyllid. Ni wnaeth y Prif Weithredwr dderbyn unrhyw wybodaeth ariannol ffurfiol gan y Cyfarwyddwr Cyllid, ac ni wnaeth ofyn am wybodaeth o'r fath, ac nid oedd ychwaith yn rhan o unrhyw wiriadau arolygu na rheoli o ran prosesau ariannol allweddol. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid yn gweithredu ar ei ben ei hun, bron yn llwyr, o ran y prosesau ariannol, a hynny gan gynnwys rheoli'r gyflogres. Er ein bod yn derbyn bod gan y Cyfarwyddwr Cyllid gyfrifoldebau yn y maes hwn, mae dyletswydd allweddol ar yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr hefyd i oruchwylio'r prosesau hyn.

44. Mae'r gwendidau hyn yn golygu nid yn unig bod yna fethiant o ran gwahanu dyletswyddau, ac nad yw Prif Weithredwr AWEMA wedi cyflawni ei swyddogaethau, ond mae hefyd yn peri risg sylweddol i barhad y busnes pe bai'r Cyfarwyddwr Cyllid yn absennol am gyfnod maith. Trodd y risg honno yn ffaith yn ddiweddar yn sgil atal y Cyfarwyddwr Cyllid o'i waith. Nid oes gan staff AWEMA unrhyw syniad sut i ddefnyddio'r system gyllid, ac adeg ein hymweliad nid oedd ganddynt fynediad at system gyllid AWEMA. Mae AWEMA wedi cymryd camau i benodi dau aelod staff dros dro yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Cyllid, ond cyfyngedig yw'r cyfarwyddiadau desg ac unrhyw gofnodion ariannol er mwyn iddynt ymgynefino ag AWEMA.

<u>Prosesau Ariannol</u>

45. Mae ein hymchwiliadau wedi dangos nad oedd y Prif Weithredwr ychwaith yn goruchwylio'r prosesau ariannol allweddol o fewn AWEMA. Nid oedd yna broses "diwedd y mis" er mwyn iddo gymeradwyo unrhyw gysoniadau neu gyfrifon ac, yn fwy arwyddocaol, ni wnaethom lwyddo i weld unrhyw gysoniadau banc yn ystod ein hymweliad. Rhoddodd yr Archwilydd Allanol wybod i ni na chyflawnodd AWEMA gysoniad banc diwedd blwyddyn i ategu cyfrifon 2010/11, ac ni wnaethom ganfod unrhyw dystiolaeth bod unrhyw gysoniadau banc wedi'u cynnal yn ystod 2011/12. Mae'r methiant i gynnal cysoniadau banc misol rheolaidd yn wendid sylfaenol yn y fframwaith rheoli ariannol.

46. Dangosodd ein hadolygiad o'r system gyflogres o fewn AWEMA fod y fframwaith rheoli yn hynod annigonol ac nad oedd y rheolaethau a oedd ar waith yn gweithredu yn unol â'r bwriad. Ar hyn o bryd, Cyngor Sir Caerdydd sy'n gweithredu cyflogres AWEMA. Caiff y staff eu talu ar sail cyflogau misol. Dangosodd ein hadolygiad o gyfrifon y gyflogres bod y Cyfarwyddwr Cyllid yn gweithredu yn gyfan gwbl ar ei ben ei hun o ran y gyflogres. Roedd unrhyw newidiadau i'r gyflogres, gan gynnwys ei diwygio pan oedd staff yn cyrraedd neu'n gadael, yn cael eu cyflwyno yn syml drwy anfon e-bost at Gyngor Caerdydd. Ni chafwyd

unrhyw dystiolaeth bod ffurflenni ffurfiol awdurdodedig yn cael eu defnyddio ar gyfer staff newydd, staff oedd yn gadael na newidiadau i gyflogau. Gwelsom dystiolaeth o un adroddiad cyflogres ar gyfer pob mis a oedd yn dangos faint o gyflog a dalwyd i bob aelod o staff; ni chafwyd unrhyw dystiolaeth, fodd bynnag, bod hwn wedi'i adolygu o ran ei gywirdeb nac wedi'i gymeradwyo. Nid oedd yna unrhyw wahanu dyletswyddau o gwbl o ran rheoli'r gyflogres, sy'n golygu na allwn gynnig unrhyw sicrwydd bod y rheolaethau priodol yn cael eu gweithredu mewn perthynas â'r gyflogres.

Cyflogau a Strwythur y Sefydliad

47. Dangosodd adolygiad o lefelau'r cyflogau bod cyflogau'r tri Chyfarwyddwr yn ymddangos yn uchel o gymharu â staff eraill AWEMA. Mae ABOMA wedi cydnabod hyn yn ddiweddar ac mae camau yn cael eu cymryd yn awr i ddiwygio cyflogau'r tri unigolyn hyn. O ran cymeradwyo'r strwythur cyflogau, prin oedd y dystiolaeth a welsom bod ABOMA wedi trafod y strwythurau staffio a chyflogau yn rheolaidd.

48. Dangosodd adolygiad o strwythur y sefydliad bod dau Gyfarwyddwr yn atebol i'r Prif Weithredwr, a bod un o'r rhain yn ferch iddo. Mae hyn yn wrthdaro buddiannau clir. Pan fo aelodau o'r un teulu yn cael eu cyflogi gan yr un sefydliad, mae'n bwysig bod y trefniadau rheoli llinell ac adrodd yn cael eu gwahanu'n glir er mwyn sicrhau na all y sefydliad fod yn agored i feirniadaeth ynghylch diffyg tryloywder a bod yn agored. Mae hyn arbennig o berthnasol yn yr achos hwn yn sgil y codiadau cyflog sylweddol a roddwyd i ferch y Prif Weithredwr. Er inni weld peth tystiolaeth bod ABOMA wedi ystyried y codiadau cyflog i ferch y Prif Weithredwr, ac wedi'u cymeradwyo, nid oeddem yn gallu gweld unrhyw dystiolaeth bod ABOMA wedi herio hynny o gwbl. Roedd y Prif Weithredwr hefyd yn bresennol yng nghyfarfod ABOMA, ac fel aelod o ABOMA roedd yn rhan o'r broses o benderfynu ar y mater hwn ac nid oedd wedi datgelu'r gwrthdaro buddiannau amlwg oedd ganddo. (£20,469 oedd cyflog ei ferch yn 2008, a chynyddodd amryw o weithiau i gyrraedd y lefel bresennol o £50,052).

Taliadau

49. Dangosodd adolygiad o daliadau AWEMA bod y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Prif Weithredwr wedi hawlio nifer o dreuliau. Er bod yna dderbynebau i ategu'r holl daliadau hyn, nid oes gan AWEMA bolisi treuliau, ac ni allwn fod yn sicr felly bod yr eitemau yr hawliwyd ar eu cyfer yn gymwys. Mae AWEMA yn ymwybodol bod gofyn iddo lunio polisi treuliau, a rhoddwyd gwybod i ni bod polisi'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.

50. Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, codwyd mater talu biliau ffonau symudol personol unigolion. Rhoddwyd gwybod i ni bod AWEMA yn talu 80% o gost biliau ffonau symudol y tri Chyfarwyddwr, gan eu bod

yn cael eu defnyddio, mae'n debyg, at ddibenion busnes. Nid oes yna bolisi ar gael i gefnogi'r taliad hwn.

Arian Traul

51. Dangosodd ein hadolygiad o arian traul fod nifer fawr o drafodion wedi'u prosesu drwy gyfrwng arian traul. Er bod yna dalebau a derbynebau perthnasol i ategu'r holl daliadau y gwnaethom eu harchwilio, roedd gennym bryderon o ran gwerth am arian. Daeth i'r amlwg yn ystod ein harchwiliad bod yr arian yn cael ei wario ar bethau megis parcio ar gyfer staff, cardiau pen-blwydd ar gyfer staff a chiniawau achlysurol ar gyfer staff. Er nad oedd gwerth y rhain yn fawr, maent yn gwneud AWEMA yn agored i feirniadaeth, yn enwedig gan nad oes yna bolisi sy'n amlinellu beth sy'n gymwys a beth sy'n anghymwys o ran arian traul; nid yw'n ymddangos ychwaith ei fod yn gydnaws ag amcanion elusennol AWEMA.

52. Yn y paragraffau isod rydym yn amlinellu'r argymhellion yr ydym yn ystyried y dylid eu gweithredu ar fyrder er mwyn gwarchod arian cyhoeddus.

**Argymhellion ac Ystyriaethau i'r Dyfodol**

53. **Argymhellwn** y dylai Llywodraeth Cymru, gan gynnwys WEFO, ystyried y canfyddiadau a'r casgliadau sydd yn yr adroddiad hwn wrth benderfynu a ddylai barhau i gyllido AWEMA. Yn arbennig, rydym yn argymell bod y penderfyniad yn ystyried y diffygion a'r ffaeleddau difrifol yn nhrefniadau llywodraethu a rheoli ariannol AWEMA.

54. **Argymhellwn** y dylai Llywodraeth Cymru, gan gynnwys WEFO, roi trefniadau wrth gefn ar waith ar fyrder, mewn ymgynghoriad â'r sefydliadau eraill sy'n cynnig nawdd, er mwyn gwarchod sefyllfa'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant a chyflogaeth sy'n derbyn cefnogaeth o gyllid cyhoeddus drwy AWEMA.

55. **Argymhellwn** y dylai'r Comisiwn Elusennau ddefnyddio ei bwerau fel y corff rheoleiddio ar gyfer elusennau er mwyn cadarnhau a yw'r Ymddiriedolwyr wedi cyflawni eu dyletswyddau'n ddigonol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol ar elusennau, yn arbennig mewn perthynas â chyfrifoldeb y Comisiwn i ymchwilio i achosion ymddangosiadol o gamymddwyn neu gamreoli wrth weinyddu elusennau. (Byddwn yn rhoi copi o'r adroddiad hwn i'r Comisiwn Elusennau i'w helpu yn hyn o beth).

56. **Argymhellwn** y dylai'r Gronfa Loteri Fawr ystyried canfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad hwn wrth benderfynu a ddylai barhau i gyllido AWEMA.

57. **Argymhellwn** y dylai WEFO ystyried goblygiadau'r ffaith nad yw AWEMA yn gallu arddangos ar hyn o bryd ei fod wedi cydymffurfio â'r prosiectau cymeradwy a ariennir â chyllid Ewropeaidd, gan nad oes

cofnodion ariannol ar gael, yn enwedig mewn perthynas ag arian cyfatebol.

58. **Argymhellwn** fod Llywodraeth Cymru yn rhoi copi o'r adroddiad hwn i Heddlu De Cymru er mwyn cynnig gwybodaeth ar eu cyfer wrth iddynt benderfynu a ddylent gymryd unrhyw gamau pellach.

**ATODIAD A**

**Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)**

**Cwmpasu'r adolygiad fforensig**

**Y cefndir**

Yn ogystal â bod yn elusen gofrestredig, mae AWEMA hefyd yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Caiff ei lywodraethu gan Gyngor o Aelodau sy'n dod o bum rhanbarth etholiadol Cymru. Caiff aelodau atodol eu cyfethol o'r Deyrnas Unedig ar argymhelliad Aelodau eraill y Cyngor a Phrif Weithredwr AWEMA.

Prif amcan AWEMA yw hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth er budd y cyhoedd. Gweir hyn mewn pedair ffordd:

i. Datblygu gallu a sgiliau cymunedau aml-ethnig Cymru fel eu bod yn gallu cyfranogi yn well yn y gymdeithas.
ii. Datblygu addysg ym meysydd cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gynhyrchu deunyddiau addysgol.
iii. Codi ymwybyddiaeth o'r holl agweddau ar gamwahaniaethu o fewn y gymdeithas ar sail hil neu statws ethnig lleiafrifol.
iv. Hyrwyddo cytgord hiliol er budd y cyhoedd ledled Prydain.

Caiff AWEMA ei gyllido yn bennaf o ffynonellau cyhoeddus amrywiol yng Nghymru. Dangosir y prif gyllidwyr yn y tabl isod:

| Ffynhonnell y Cyllid | Diben y cyllid | Cyfnod Cyllido | £k |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) | Cyllid Craidd | Blynyddol | 105 |
| Llywodraeth Cymru (WEFO) * | "Young BME People Aiming High"<br>"BME Employment for All"<br>"Minorities are Wales Resources" | 2010/13<br>2008/12<br>2010/14 | 1,500<br>2,000<br>1,500 |
| Y Gronfa Loteri Fawr | "Advocacy for Elders"<br>"Consulting Young People in Transition" | 2011/14<br>2011/12 | 518<br>5 |
| Ffynonellau Eraill | Amrywiol | Yn flynyddol, yn fras | 20 |

*AWEMA yw'r partner arweiniol ar gyfer y prosiectau ESF hyn a chaiff ei gefnogi gan rwydwaith o bartneriaid darparu/noddwyr ar y cyd.

Ers canol mis Rhagfyr 2011 mae Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr wedi derbyn nifer fawr o ddogfennau sy'n cyfeirio at honiadau o amhriodoldeb ariannol yn AWEMA, yn enwedig mewn perthynas â'r Prif Weithredwr a'i deulu.

Yng ngoleuni'r wybodaeth a ddaeth i law, cytunwyd y dylid cynnal ymchwiliad fforensig o'r dulliau rheoli ariannol a'r safonau llywodraethu yn AWEMA, gan ganolbwyntio ar y cyllid cyhoeddus y mae'r sefydliad wedi'i dderbyn.

Dylid nodi, tra bo'r gwaith ymchwilio fforensig yn mynd yn ei flaen, y bydd holl gyllid Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cyllid Ewropeaidd) a'r Gronfa Loteri Fawr, yn parhau i gael ei atal.

Prif ddiben yr ymchwiliad fydd penderfynu a oes gan AWEMA systemau rheoli ariannol a llywodraethu digonol sy'n addas at y diben o ran sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r telerau a'r amodau a bennwyd ac y gellir rhoi cyfrif priodol ohono, a chynghori ar hynny.

**Cwmpas yr adolygiad**

Bwriedir cynnal adolygiad fforensig ar y cyd o'r holl gyllid cyhoeddus, gan gynnwys cyllid y Gronfa Loteri Fawr a chyllid Ewropeaidd, a roddwyd i AWEMA er mwyn canfod a gafodd y cyllid ei ddefnyddio at y dibenion y'i bwriadwyd ar eu cyfer a'i fod yn cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn i ddangos y cydymffurfiwyd â thelerau ac amodau'r cyllid.

Wrth gynnal yr adolygiad fforensig byddwn yn ceisio canfod:-

1. Ystod lawn y cyllid cyhoeddus a ddarparwyd ar gyfer prosiectau dan reolaeth AWEMA rhwng mis Ebrill 2008 ac yn awr.

2. Pa mor effeithiol yw'r fframwaith rheoli o fewn AWEMA er mwyn rheoli'r cyllid y mae'n ei dderbyn.

3. I ba raddau y cydymffurfiwyd â rheoliadau a pholisïau AWEMA.

4. Pa mor effeithiol yw proses monitro cynnydd AWEMA ar gyfer y prosiectau a gyllidir, gan gynnwys cyflawni targedau ac amcanion prosiectau yn barhaus.

5. Ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r broses o baratoi a chyflwyno ceisiadau am grantiau.

6. Amlder ac ansawdd yr wybodaeth ariannol a roddwyd i Fwrdd AWEMA.

7. Pa mor ddigonol oedd y trefniadau a'r gweithdrefnau llywodraethu.

8. Pa mor ddigonol oedd y broses arolygu ariannol ar ran Ymddiriedolwyr a Bwrdd AWEMA.

9. Y datganiadau o wrthdrawiadau buddiannau a gofnodwyd, a'r dull o'u rheoli.

**Methodoleg yr Adolygiad**

Byddwn yn defnyddio tîm adolygu penodedig dan arweiniad Pennaeth yr Is-adran Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd er mwyn:-

1. Llunio rhestr o'r wybodaeth ofynnol.

2. Cael gafael ar yr holl ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r cyllid a dalwyd i AWEMA.

3. Pennu'r sefydliadau a'r unigolion perthnasol y bydd gofyn i ni gysylltu â hwy mewn perthynas â'r cyllid a ddarparwyd i AWEMA.

4. Asesu'r holl ddogfennau a'r dystiolaeth lafar er mwyn gwerthuso lefel y sicrwydd a gynigir o ran sut y mae AWEMA yn rheoli ac yn defnyddio cyllid cyhoeddus.

5. Ystyried ar bob achlysur a oes yna unrhyw arwyddion o weithgarwch a allai fod yn dwyllodrus.

6. Gosod yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad hwn mewn adran o fewn i-share, gan sicrhau bod mynediad wedi'i gyfyngu'n gaeth i aelodau'r tîm ymchwilio.

7. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn eiddo i Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr ar y cyd, ac ar gael i'r ddau sefydliad fel ei gilydd.

**Trefniadau Llywodraethu**

Yr Ysgrifennydd Parhaol, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, fydd yn bennaf gyfrifol am oruchwylio'r ymchwiliad.

**Trefniadau adrodd a briffio**

Bydd Pennaeth yr Is-adran Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd, ar y cyd â'r Gronfa Loteri Fawr, yn sicrhau ar bob achlysur bod y swyddogion mewnol perthnasol yn Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau allanol perthnasol, yn enwedig Swyddfa Archwilio Cymru, yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ac yn cael cyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad drafft.